

Cofion

- Parhawn i gofio am Gwyn Jones (Peniel) sy'n cael gofal yn Ysbyty Walton yn dilyn ei lawdriniaeth, a hefyd Gwyneth Rawson (Llanfair), hithau'n cael gofal yn yr Inffirmari yn Ninbych ar hyn o bryd. Bu'n rhaid i Emllyn Evans (Llansannan) fynd i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos hefyd ond mae'n gobeithio'n fawr cael dod adref cyn y penwythnos. Cyflwynwn y tri, a phawb arall o'r Fro sydd heb fod cystal eu hiechyd, i ofal yr Arglwydd a hyderwn y bydd y gofal da y maen nhw'n ei dderbyn yn arwain at adferiad iechyd buan.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein cyfeillion sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Miss W J Roberts a Mrs Kate Owen, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenllian Jones, Henllan (Plas Gwyn); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Gweddïwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni dros dymor y Nadolig.

I ddod

- **'AWN I FETHLEHEM'** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 18fed am 7.30. Gwneir casgliad tuag at Shelter Cymru.
- **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Llanefydd **am 10.30** bore Sul, Rhagfyr 24ain.
- **PLYGAIN** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 bore dydd Nadolig.
- **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Ffestri Llansannan, nos Iau, Rhagfyr 28ain am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** yn ardal Talacre, dydd Gwener, Rhagfyr 29ain. Mae'r llwybr yn wastad ond yn eithaf amrwd, felly bydd angen esgidiau cerdded neu wellingtons ar bawb sy'n bwriadu dod. Byddwn yn cyfarfod am 10.30 ym maes parcio 'The Point', Station Road, Talacre (CH8 9RP) i gychwyn y daith gerdded fydd yn para oddeutu awr a hanner, ac yna mae croeso i bwy bynnag sy'n dymuno, ddod i gael cinio (neu fyrbryd) yng ngwesty'r Tŷ Gwyn, Rhualt am 12.30. (Nid yw'r daith gerdded yn addas ar gyfer olwynion, ond mae'n bosib i chi gerdded ar hyd llwybr tarmac arall gerllaw os byddwch yn dymuno hynny.) ***PWYSIG*** Rhowch eich enw i Mair **erbyn dydd Mawrth, Rhagfyr 19eg** os ydych am ymuno â ni am ginio fel y gallwn archebu'r bwyd ymlaen llaw (mae bwydlen a map ar gael gan Mair). Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen y wefan i weld a fydd y daith ymlaen ai peidio, neu cysylltwch â Mair.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 31ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Rhagfyr 2017

Darllenid y Dydd

Luc 2:27-33

(BCND tud.63 / BCN tud.58)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i chi ar benwythnos mor oer! Dewch i ni ymuno gyda'n gilydd i addoli'r Duw Byw a chanu clod i'w enw O.

Ydach chi erioed wedi cael eich synnu gan rywbeth? Falle eich bod chi'n disgwyl un peth amser Nadolig, ond rhywbeth hollol wahanol sy'n cyrraedd? Da chi'n gyfarwydd â'r sefyllfa dwi'n siŵr: rydych chi'n sicr fod y lledawgrymu yr ydach chi wedi bod yn ei wneud wedi bod yn ddigon amlwg ond gwaetha'r modd, pan mae'r diwrnod mawr yn dod, nid pâr o esgidiau newydd sydd wedi eu lapio ond pâr o sannau a tea cosy! Wrth gwrs, nid siom yn unig all gael ei deimlo. Weithiau mae'r anrheg – er yn annisgwyl – yn llawer iawn gwell na'r hyn allen ni fod wedi ei ddychmygu!

Hanes tebyg i hyn ynglŷn â Simeon sydd gennym heddiw yn Luc pennod 2. Mae'r Ysbryd Glân wedi addo iddo y bydd yn cael gweld y Meseia cyn iddo farw. Wel, dyna i chi addewid! Mae'n siŵr ei fod wedi deffro bob bore yn edrych ymlaen i weld pa fath o achubwr fydd Duw yn ei anfon i Israel – arweinydd milwrol? Gwleidydd carismataidd? Brenin cryf i uno Israel? Un diwrnod mae'r Ysbryd Glân yn ei dywys at y deml ac mae'n dod i ddeall mai'r baban bach yma ym mreichiau ei rieni ydy'r Meseia, Achubwr y Byd! Ydy o wedi siomi? Ydy o'n cwyno y buasai'n well ganddo rywbeth arall? Wrth gwrs ddim, “*dyma Simeon yn cymryd y plentyn yn ei freichiau a dechrau moli Duw.*” (Luc 2:28) Mae gweld y Meseia Iesu yn arwain Simeon i addoli Duw.

Mae'r hanes yma yn dangos yn eglur fod Iesu Grist yn reswm i bobl foli Duw. Mae'r ffaith fod Iesu wedi ei eni yn ddigon i bobl fod yn canu clod i'r Arglwydd. Wrth i ni ddod at y Nadolig, ydyn ni'n sylweddoli pa mor arbennig ydy Iesu Grist?

Mae addoliad Simeon yn cyfeirio at pa mor bwysig i Simeon oedd gweld y Meseia. Dyma oedd ei ddyhead mwyaf, hyd nes ei fod yn hapus i farw rŵan ei fod wedi gweld yr Iesu. Mae bod wedi gweld Achubwr dynoliaeth yn ddigon iddo. Mae'n sylweddoli pwy ydy Iesu a pha mor bwysig ydy o, ac mae hyn yn ddigon iddo i beidio bod eisiau unrhyw beth arall mewn bywyd! Ydy hyn yn wir i ni y Nadolig yma? Oes gennyn ni ein golwg ar Iesu Grist, yr un sy'n rhoi bywyd a chyflawnder i ni?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn


Gan mai un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi eleni, wnewch chi anfon manylion unrhyw gyfarchion arbennig neu gyfarfodydd sydd i ddigwydd rhwng Rhagfyr 17eg a Ionawr 7fed erbyn nos Fercher (13^{eg}), os gwelwch yn dda?

mair@eglwysibroaled.com 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 10^{fed}



- Llun – 11^{eg} ➤ **Canu Carolau** yng nghartrefi gofal Plas Gwyn, Llanychan am 6.00, a Phlas Llanrhaeadr am 7.00. Os oes unrhyw un arall awydd ymuno â ni, plis cysylltwch â Mair am fwy o fanylion.
- Mawrth – 12^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Heulfryn am 7.30.
- Mercher – 13^{eg} ➤ **Torri Syched y dynion a'r merched** (grwpiau tai) am 7.30.
lau – 14^{eg} ➤ **Parti Nadolig Cyfarfod Plant Llansannan** yn y Ganolfan am 3.15.
- Gwener – 15^{fed} ➤ **Canu Carolau** yng nghartrefi gofal Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas am 2.30, Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur am 4.00, a'r Hen Ddeondy, Llanelwy am 5.30. Os oes unrhyw un arall awydd ymuno â ni, plis cysylltwch â Mair am fwy o fanylion.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno. Cynhelir yr Oedfa i'r Fro nesaf bore Sul, Rhagfyr 24ain yng Nghapel Llanefydd **am 10.30**, ac yna yng Nghapel Cefn Meiriadog, bore Sul, Rhagfyr 31ain am **10.30**.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Gwener – 15^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **HEDDIW (10^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig y plant yng Nghefn Berain am 10.00 gyda'r Parti Nadolig yn dilyn. Yn yr un modd, bydd Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Llanefydd am 10.30 a Pharti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn y Capel am 6.30 yr hwyr.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 12^{fed} ➤ Bydd Cinio Nadolig a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Bydd Gwasanaeth Nadolig Teuluol yn Llanfair am 11.00 ac fe wneir casgliad arbennig er budd "Corwynt Cariad". Yn dilyn y gwasanaeth, bydd cinio i bawb yn y Neuadd Goffa.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ac Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 13^{eg} ➤ Paned a Sgwrs – Bydd y criw yn mynd am ginio Nadolig i'r Ganolfan Grefftau yn Afonwen am 12:30.
- Mercher – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (10^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion yn y Granar am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Festri. Plis cysylltwch â John G. Jones (870607) os hoffech gyfrannu at y bwyd. Croeso i bawb!
➤ Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Nantglyn am 10.00 a phaned i ddilyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 a bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Cynhelir Gwasanaeth Nadolig ym Mheniel am 11.00 a bydd paned a sgwrs i ddilyn yn y Festri. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuencid yn Saron am 2.00. Bydd Siôn Corn yn galw heibio ar ôl y gwasanaeth a bydd paned a chacen i bawb.

Henllan a Groes

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Festri.